CYNGOR CYMUNED BODORGAN

Cofnodion cyfarfod arbennig Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cymunedol Bodorgan – 24 Mehefin 2019.

1 Presennol:

Cynghorwyr Mr Dafydd Jones (Cadeirydd), Mr Andrew Hughes, Mr Gareth Evans, Mr Gwilym Looms, Mr Jeffrey Hughes, a Mrs Sharon Barton. Hefyd Mr J Alun Foulkes (Clerc).

2 Ymddiheuriadau:

Cynghorwr Mr Selwyn Williams, Mr Myfyr Davies, Mr Tim Owen a Cynghorwr Sirol Mr Bryan Owen.

3 Croesawyd pob aelod i'r cyfarfod gan y Cadeirydd ac fe rhoddodd eglurhad sydyn am rhesymau galw y cyfarfod er mwyn cymeradwyo y cyfrifon ac archwiliad mewnol blynyddol wedi ei dderbyn gan cwmni I G Jones & Co, Cyfrifyddion Siartredig o Langefni.

4 Sylwadau Archwiliad Mewnol.

4.1 Roedd yr Archwilydd yn hapus gyda ffigurau a dderbyniwyd ond roedd wedi paratoi adroddiad o canfyddiadau ac argymellion fel a ganlyn:

4.2 Angen mwy o wybodaeeth ynghylch a rhestr asedau fel dyddiad prynu, cost, gwerth cyfredol a bywyd defnyddiol disgwyliadwy.

4.3 Angen adolygu trefn cywir o dalu cyflog y Clerc, yn arbennig trosglwyddo swm y treth i'r HMRC.

4.4 Nodwyd fod y Cyngor wedi hawlio'r TAW ond ni dderbyniwyd yn nol cyn diwedd y flwyddyn ariannol ac felly dylai fod y ffigwr yma wedi ei ddangos fel dyledwr.

4.5 Nodwyd sylwadau yr Archwiliwr gyda diolch ac arwyddodd y Cadeirydd y ddogfen a gofyn i'r Clerc anfon ymlaen i'r Archwilydd Allanol (BDO).

4.6 Diolchwyd hefyd i'r Clerc am ddarparu y ddogfen yn unol a'r gofynion.

5 GOHEBIAETH.

5.1 Nodwyd Rhybudd Cyhoeddus Adolygu Rhanbarthau Pleidleisio Ynys Mon er gwybodaeth yn unig.

6 Clowyd y cyfarfod am 7:45yh.

Arwyddo.....**Cadeirydd**.....17/9/2019.....**Dyddiad.**